



Yn ystod 2021 fe wnaethom gynnal pum cyfarfod rhwydwaith a rhannu/trafod ystod o bynciau:

- Effaith COVID-19 ar AGPC; rhannwyd amrywiaeth o ffeithluniau yn manylu ar y canfyddiadau allweddol
<https://www.childreninwales.org.uk/index.php?cID=733>
- Hawliau'r Blynyddoedd Cynnar ar Waith; rhoddodd yr aelodau sylwadau ac adborth ar boster un dudalen. Mae bellach ar gael i leoliadau Blynyddoedd Cynnar ei ddefnyddio: [Poster Hawliau Plant](#)
- Fframwaith ansawdd AGPC a chwricwlwm nas cynhelir. Mae'r cwricwlwm NM bellach wedi'i ryddhau ac mae'n canolbwyntio'n gryf ar hawliau wedi'u gwreiddio drwyddo draw. [Canllawiau Galluogi Dysgu](#) a [Chwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir](#)
- Hawl i Chwarae ac Effaith COVID ar chwarae; Rhannodd Chwarae Cymru ymchwil a chanfyddiadau diddorol.
- Hawliau Plant mewn Cyfranogiad mewn Iechyd; roedd hwn yn bwnc newydd i lawer ohonom a rhoddodd fewnwelediad da i ni i allu a hawliau esblygol plant o fewn ymchwil iechyd plant.

CODI YMWYBYDDIAETH O HAWLIAU PLANT

Mae'r strategaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn nodi'r cynllun ar sut y bydd Llywodraeth Cymru yn codi ymwybyddiaeth o CCUHP yng Nghymru tan ddiwedd 2023.

Mae gan CREYN sylw penodol o dan yr adran Blynyddoedd Cynnar:

- Cefnogi rhwydwaith blynyddoedd cynnar hawliau plant. Byddwn yn cefnogi'r rhwydwaith hwn i ddod â rhanddeiliaid allweddol ynghyd i rannu arfer da ym maes hawliau plant.
- Rydym yn awyddus i adeiladu ar hyn a datblygu cysylltiadau cryfach gyda Llywodraeth Cymru a chaniatáu rôl fwy gweithredol i CREYN.

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/codi-ymwybyddiaeth-o-hawliau-plant.pdf>